Atebion i Gwestiynau a Holir yn Aml

Beth mae "Datganiad o Fwriad" yn ei olygu?
Mae'r Datganiad o Fwriad yn esbonio sut mae'r ddau gorff yn bwriadu symud ymlaen mewn partneriaeth. Mae'n gosod y sylfaen ac yn amlinellu'r modd y gall y ddau sefydliad gydweithio gan ddechrau trwy gymeradwyo gwerthusiad opsiynau o fodelau partneriaeth amrywiol.

Pwy fydd yn cymryd rhan yn y sgyrsiau hyn?
Bydd Is-Ganghellor Prifysgol Glyndŵr, Prifathro Coleg lâl ac uwch aelodau o'r ddau gorff yn cymryd rhan i ddechrau, gan geisio cymeradwyaeth y Byrddau Llywodraethwyr priodol ym mhob cam. Unwaith i opsiwn gael ei ddynodi, cynhelir ymgynghoriaeth lawn gyda'r holl fudd-ddeiliaid.

Beth yw amseru tebygol cynghrair strategol yn y dyfodol?
Bydd y ddau gorff yn ceisio dynodi opsiwn ar gyfer symud ymlaen yn ystod gweddill y flwyddyn galendr sydd ohoni.

Pwy sydd y tu ôl i hyn – a pham?
Polisi Gweddnewid Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r ymgyrch am gydweithredu rhanbarthol, a amlinellwyd ym mholisi addysg uwch diweddar Llywodraeth Cynulliad Cymru, "Er Mwyn Ein Dyfodol". Mae gweddnewid eisoes yn cael effaith ledled Cymru gyda sawl enghraifft o gynghreiriau a phartneriaethau strategol i'w gweld.

Pwy fydd yn cynnal y Gwerthusiad Opsiynau?
Penodiad allanol fydd hwn wedi'i wneud trwy brosesau tendro sector cyhoeddus arferol ac yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Pryd y byddwn yn cael gwybod mwy?
Mae'n debyg y bydd mwy o wybodaeth ar gael unwaith i'r Gwerthusiad Opsiynau gael ei gynnal.

Beth fydd hyn yn ei olygu i fyfyrwyr presennol?
Ni fydd hyn yn cael unrhyw effaith ar y myfyrwyr presennol. Wrth symud ymlaen, edrychir ar gyfleoedd sy'n cryfhau'r Brifysgol a'r Coleg ac yn cynyddu eu proffil a'u safle ar y cyd – gan roi darpariaeth gadarn ac esmwyth a fydd o fudd i fyfyrwyr, staff, partneriaid a'r ardal.

Pa effaith fydd hyn yn ei gael ar staff?
Ni fydd hyn yn cael unrhyw effaith uniongyrchol ar staff nag ar ffyrdd o weithio, ac ni ragwelir y bydd colli swyddi yn symbyliad allweddol. Bydd undebau yn cael eu diweddaru ynghylch y datblygiadau. Disgwylir i'r sgyrsiau hyn helpu i sicrhau ffyniant mwy hirdymor y ddau gorff ac yn sicrhau'r ddau sector yn ardal Gogledd Ddwyrain Cymru, a fydd yn bwysig i'r staff i gyd ac i fudd-ddeiliaid eraill.

Ai torri costau yw ystyr hyn i gyd?
Na, mae hyn ynghylch integreiddio mwy ar addysg ôl-16. Mae'n ymwneud â rhoi'r dewis ehangaf posibl i ddysgwyr, ynghylch mynediad a dilyniant i ddysgu o ansawdd uwch, cael gwared ar ddyblygu dianghenraid, a chodi mwy ar y lefel o sgiliau yng Ngogledd Ddwyrain Cymru er budd yr ardal, ei heconomi a'i phobl.

Beth yw manteision cynghrair strategol?
Mae'r Brifysgol a'r Coleg yn rhagweld y bydd y Gwerthusiad Opsiynau yn dynodi cyfrwng ar gyfer perthynas waith agosach a fydd yn galluogi synergeddau mewn arferion gwaith a'r cwricwlwm. Y gobaith yw y gall arwain at well dilyniant i Addysg Uwch a phontio rhwyddach i bobl ifanc ac oedolion lleol o Addysg Bellach i astudiaeth lefel uwch.

A fyddwn yn dod yn 'un endid'?
Mae'n llawer rhy gynnar i ddweud, ond y bwriad yw y bydd pob corff yn ceisio cadw hunaniaeth, ymreolaeth, cenhadaeth a gweledigaeth ac yn ymdrechu i beidio â gwanhau'r ddarpariaeth a ddarperir gan y naill a'r llall ar hyn o bryd ond yn hytrach sicrhau gwell darpariaeth ar gyfer pawb dan sylw.

A fydd y cyrff yn hepgor partneriaethau eraill er mwyn yr un yma?
Mae gan y ddau gorff lawer o berthnasau cydweithrediadol gyda phartneriaid eraill a byddant yn parhau gyda'r partneriaethau hynny fel y bo'n briodol ac yn unol â'u strategaethau priodol.

A fydd ffocws y Brifysgol yn symud i ffwrdd oddi wrth Addysg Uwch a'i blaenoriaethau presennol?
Na, bydd y Brifysgol yn parhau i ganolbwyntio ar ddatblygiad ei chynlluniau a'i chenhadaeth Addysg Uwch er mwyn cyflawni Pwerau Dyfarnu Graddau Ymchwil (PDGY). Erys ein nod i gynyddu gweithgaredd menter ac ymchwil yn ddigyfnewid hefyd. Contained only on Glyndwr version of FAQ